| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 2/4/2024 | Huw Antur - 3050 – Mynwent yr Eglwys | **Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw P Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Alwyn M Roberts<br><br>Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br><br>**Ymddiheuriadau:** Alwyn E Jones, Dewi Wyn Jones, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) | Cyfraniad Cymunedol: Penderfynodd yr Is-bwyllgor cyllid i gyfrannu £100 a chymeradwywyd hyn gan y Cyngor.<br><br>Cadarnhawyd mai cytuno i dorri gwair Mynwent y Pandy ddwy waith y flwyddyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud; mae'r fynwent yn parhau ym mherchnogaeth y Methodistiaid.<br><br>Cytunwyd ar y dewis o gontractwr i baentio'r Cyfleusterau Cyhoeddus.<br><br>Cymeradwywyd taliadau mis Mawrth.:<br><br>Cyfraniadau Cymunedol £1,100.00<br>CThEF £243.00<br>Hanner cost MAD – Neuadd £420.00<br>Anfonebau'r Nadolig: £287.42 ac £20<br><br>Cytunwyd i'r Is-bwyllgor Cyllid adolygu telerau'r Cytundeb Glanhau y Cyfleusterau Cyhoeddus.<br><br>Ystyriwyd cais am gymorth i 3 pherson ifanc o'r Gaiman ymweld a Llanuwchllyn. Cytunwyd y byddai croeso arbennig iddynt ac y byddid yn ceisio cyfrannu peth cymorth ariannol gan fod Llanuwchllyn wedi gefeillio a'r Gaiman yn ddiweddar. Cytunwyd i holi am fwy o fanylion. |